# Adnewyddu eich trwydded

Canllaw i asiantau

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

## Beth yw adnewyddu?

Mae pob trwydded yn para am 5 mlynedd. Os oes dal angen eich trwydded, rhaid i chi wneud cais i'w hadnewyddu cyn iddi ddod i ben.

Mae adnewyddu yn cynnwys diweddaru eich gwybodaeth, cwblhau hyfforddiant a thalu ffi. Ar ôl iddi gael ei chymeradwyo, bydd eich trwydded yn ddilys am 5 mlynedd arall.

Dysgwch fwy am drwyddedu.

## Pwy sydd angen trwydded?

Mae angen trwydded asiant arnoch os ydych chi'n gosod a/neu'n rheoli eiddo i rywun arall yng Nghymru. Mae gweithgareddau gosod a rheoli yn cynnwys, ymhlith engreifftiau eraill, drefnu tenantiaethau, casglu rhent ac ymdrin ag unrhyw faterion a gododd yn ystod y denantiaeth.

Os ydych chi yn gosod a/neu rheoli eich eiddo eich hun yn unig, dim ond trwydded landlord sydd ei hangen arnoch chi.

Os ydych chi'n berchen ar eiddo rydych chi'n ei osod ar denantiaeth ddomestig, mae angen i chi gwblhau cofrestriad.

Dysgwch fwy am gofrestru.

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Mewngofnodwch i'ch cyfrif Rhentu Doeth Cymru i adolygu manylion eich cyfrif. O'ch dangosfwrdd defnyddiwr, dewiswch y botwm 'adnewyddu nawr' ar eich trwydded asiant i ddechrau'r broses adnewyddu.

## Dydw i ddim yn gosod a/neu reoli mwyach

Os nad oes angen trwydded arnoch mwyach, rhaid rhoi gwybod i Rhentu Doeth Cymru.

Mewngofnodwch i'ch cyfrif, dewiswch 'dydw i ddim yn asiant mwyach' a dilynwch y cyfarwyddiadau. Os na allwch fewngofnodi, cwblhewch ffurflen nad oes angen trwydded mwyach.

## Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n adnewyddu?

Os nad ydych chi'n adnewyddu ar amser, gallwch chi neu'r landlord wynebu canlyniadau. Gall y rhain gynnwys:

- cosb benodedig
- methu â chyflwyno gorchymyn troi allan dilys
- camau cyfreithiol sy'n arwain at euogfarn droseddol
- gorchmynion ad-dalu/atal rhent

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

## Beth yw'r broses ar gyfer ceisiadau?

Mae pump rhan i gais am drwydded asiant:

**Proffil**
Gwirio a diweddaru manylion personol.

**Cais am drwydded**
Cadarnhewch y math o drwydded, nodwch unrhyw fanylion cyflogai, llofnodwch y datganiad 'addas a phriodol' ac atodwch eich mesuriadau diogelu busnes.

**Hyfforddiant**
Cynlluniwch ymlaen llaw fel bod gennych ddigon o amser i gwblhau hyfforddiant cyn i'ch trwydded ddod i ben. Darllenwch ein canllaw hyfforddi am ragor o wybodaeth.

**Manylion eiddo a reolir**
Defnyddiwch ein templed i ddarparu rhestr o eiddo rydych chi'n eu rheoli fel asiant.

**Talu ffi**
Cyflwynwch y ffi gywir ar gyfer eich cais.

## Faint mae trwydded asiant yn ei gostio?

Mae cost eich trwydded asiant yn amrywio yn seiliedig ar nifer yr eiddo rydych chi'n eu rheoli.

Mae gostyngiadau ar gael os ydych chi'n aelod o gorff proffesiynol ac mae rhai ffioedd yn gallu cael eu talu mewn rhandaliadau. Gweler ein polisi ffioedd am fwy o wybodaeth.

## Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Os oes angen help arnoch chi i adnewyddu eich trwydded, cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru. Gallwn eich helpu drwy'r broses.

Gallwch gysylltu â ni fel a ganlyn:

**Gwefan**
Llenwch ffurflen 'cysylltu â ni'.

**Ffôn**
Ffoniwch ni ar
03000 133344

**Post**
Ysgrifennwch at
Rhentu Doeth Cymru
Blwch SP 1106
Caerdydd
CF11 1UA

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am adnewyddu ac adnoddau ar ein gwefan.